

PRIFYSGOL CAERDYDD

DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN HYD AT 31AIN GORFFENNAF, 2004

CYNNWYS

	TUDALEN
Adroddiad y Trysorydd	2-3
Datganiad o Lywodraethu Corfforaethol	4
Cyfrifoldebau Cyngor y Brifysgol	5-6
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	7-8
Datganiad o'r Prif Bolisiâu Cyfrifo	9-11
Cyfrif Incwm a Gwariant Cyfunol a Datganiad o Gost Hanesyddol y Gwargedion a'r Diffygion	12
Datganiad o Gyfanswm Cydnabyddedig yr Enillion a'r Colledion Cyfunol	13
Mantolenni	14-15
Datganiad o'r Llif Arian Cyfunol	16
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	17-40

Prifysgol Caerdydd yw enw cyhoeddus Prifysgol Cymru, Caerdydd, un o sefydliadau cyfansoddol Prifysgol Cymru. Mae pob cyfeiriad at Brifysgol Caerdydd a'r Brifysgol yn y cyhoeddiad hwn yn cyfeirio at Brifysgol Cymru, Caerdydd.

ADRODDIAD Y TRYSORYDD**Cwmpas y Datganiadau Ariannol**

Mae'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn yn diweddu ar 31ain Gorffennaf, 2004 yn cyfuno canlyniadau'r Brifysgol a'i phedwar is-gwmni, sef Cardiff University Equipment Services Cyf, Cardiff University Properties Cyf, Cardiff University Residential Property Services Cyf a University College Cardiff Consultants Cyf.

Canlyniadau am y Flwyddyn

Ceir crynodeb o ganlyniadau incwm a gwariant cyfunol y Brifysgol am y flwyddyn hyd at 31ain Gorffennaf, 2004 isod:

	<u>2003/04</u> £000	<u>2002/03</u> £000
Incwm	197,526	186,884
Gwariant	<u>(191,721)</u>	<u>(176,791)</u>
Gwarged am y Flwyddyn ar ôl Dibrisio		
Asedau yn ôl eu Gwerth a Threth	5,805	10,093
Trosglwyddiad o Incwm Cronnus mewn Gwaddolion Penodol	<u>91</u>	<u>109</u>
Gwarged am y Flwyddyn a Gadwyd yn y Cronfeydd Cyffredinol wrth gefn	<u>5,896</u>	<u>10,202</u>
Gwarged Cyn Treth am y Flwyddyn ar Sail Cost Hanesyddol	<u>8,866</u>	<u>13,154</u>

Mae'r incwm wedi cynyddu M£10.6 (5.7%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cynnydd yng ngrantiau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) o M£3.6 a chynnydd o M£3.2 yn yr incwm o ffoedd dysgu, yn enwedig oddi wrth fyfyrwyr tramor, oedd yn gyfrifol am y cynnydd hwnnw. Mae'r incwm o grantiau a chontractau ymchwil yn dal i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn, ac fe gyrhaeddodd dros M£44 yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae gwariant wedi cynyddu M£14.9 (8.4%) yn bennaf oherwydd cynnydd yn y costau staff sy'n adlewyrchu cynnydd yn nifer y staff, chwyddiant a thuedd y cynyddrannau cyflog. Mae costau gweithredu eraill wedi cynyddu rhyw M£4.6 gan adlewyrchu, yn rhannol, gostau unwaith-ac-am-byth yr uno a'r cynnydd yn y gwario ar gynnal-a-chadw tymor-hir.

Perfformiad Buddsoddiad a Llif Arian

Gweinyddir y balansau arian yn unol â Pholisi Rheoli Trysorlys y Brifysgol. Yn ystod 2003/04, mae buddsoddiadau arian y Brifysgol wedi tanberfformio mewn perthynas â'r cymaryddion marchnad y cytunwyd arnynt, ond ers cychwyn y cronfeydd mae eu perfformiad wedi rhagori ar berfformiad y cymaryddion hynny.

Mae'r datganiad cyfunol o lif arian yn dangos mewnlifiad arian net o M£12.9 o weithgareddau gweithredu. Gwelwyd gostyngiad net mewn arian o K£913 ar ôl cymryd gwariant cyfalaf, buddsoddiad ariannol a chyllido i ystyriaeth.

Cynlluniau Pensiwn

Y diffyg cyfun ar Gronfa Bensiwn Prifysgol Caerdydd (CUPF) a Chynllun Llywodraeth Leol (LGS), fel y'i cyfrifwyd at ddibenion FRS 17, oedd M£25.1 ar 31ain Gorffennaf 2004 (M£23.5 ar 31ain Gorffennaf 2003).

Parhad yr ansicrwydd yn y farchnad stoc sydd wrth wraidd y sefyllfa sylfaenol ac mae ffactorau actiwaraidd hefyd wedi bod yn ddylanwad o bwys. Dylid edrych ar y diffygion hyn yng nghyd-destun cronfeydd cyffredinol wrth gefn o M£110.5. O dan y safonau cyfrifo presennol, nid oes gofyn i ddiffygion fel y'u cyfrifir at ddibenion FRS 17 gael eu hymgorffori yn y canlyniadau ariannol fel y cyfryw.

Datblygiadau yn y Dyfodol

Ar 1af Rhagfyr 2004, unodd Prifysgol Caerdydd â Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru ar ôl i'r ddau sefydliad fod yn gweithio ar y cyd ers 1af Awst 2004. Mae'r uno'n gam mawr ymlaen yng ngweledigaeth Prifysgol Caerdydd o fod yn brifysgol o Safon Byd sy'n mynd ar drywydd ymchwil ac addysgu o'r safon uchaf. Mae nifer y ceisiadau am leoedd myfyrwyr yn parhau i gynyddu, fel y gwna gweithgarwch ymchwil y Brifysgol.

ADRODDIAD Y TRYSORYDD - Parhad

Datblygiadau at y Dyfodol (Parhad)

Gan fod llwyddiant y Brifysgol yn parhau, mae gofyn buddsoddi'n helaeth yn ei seilwaith academaidd. O ganlyniad, gweithredir rhaglen gyfalaf fawr sy'n cynnwys cwblhau codi adeilad newydd, ar gost o M£16, ar gyfer yr Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Golwg a phrynu tir i hwyluso datblygu adeiladau arnynt yn y dyfodol.

Er bod balansau arian y Brifysgol yn dal i fod yn gryf, effaith y buddsoddiad uchod, ynghyd â'r cynnydd yn y buddsoddi mewn penodi staff academaidd yn sgil y broses uno, fydd gostwng cryn dipyn ar yr adneon tymor-byr yn y fantolen yn y dyfodol.

Casgliad

Mae'r Datganiadau Ariannol yn dal i ddarlunio sefyllfa foddhaol gan eu bod yn ymgorffori cryfder ariannol sylweddol y Brifysgol wrth iddi symud ymlaen i wynebu oes o her a chyfle yn dilyn yr uno.

R D Gagg
Trysorydd

Dyddiad: 17eg Rhagfyr, 2004

DATGANIAD O LYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i arddangos yr arferion gorau ymhob agwedd ar ei llywodraethu corfforaethol. Mae'r crynodeb hwn yn disgrifio'r modd y mae'r Brifysgol wedi cymhwyso'r egwyddorion a amlinellir yn Adran 1 y Cod Cyfun ar Lywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Gyfnewidfa Stoc Llundain ym Mehefin 1998. Ei ddiben yw cynorthwyo darllynydd y Datganiadau Ariannol i ddeall sut mae'r egwyddorion wedi'u cymhwyso.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am system reoli fewnol y Brifysgol ac am adolygu ei heffeithiolrwydd. Mae'r system honno wedi'i llunio i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni amcanion y busnes ac ni all ond darparu sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd llwyr, rhag camddatganiad neu golled berthnasol.

Mae gan y Cyngor broses barhaus ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol y Brifysgol ac mae'r broses honno wedi bod ar waith ar gyfer y cyfan o'r flwyddyn yn diweddu 31ain Gorffennaf 2004. Mae agenda'r Cyngor yn cynnwys adroddiad rheolaidd sy'n cynnwys adrannau ar reoli risg, rheoli a chydymffurfio sy'n cyd-fynd â'r cyfarwyddyd ar reoli mewnol i gyfarwyddwyr ar y Cod Cyfun fel y barnwyd ei fod yn briodol ar gyfer addysg uwch. Ar sicrhau'r radd berthnasol o sicrwydd y mae'r pwyslais, ac nid ar wneud dim ond adrodd ar sail eithriadau.

Bydd Cyngor y Brifysgol yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn ac mae ganddo sawl pwyllgor, gan gynnwys Pwyllgor Cynllunio ac Adnoddau, Pwyllgor Enwebiadau, Pwyllgor Taliadau a Phwyllgor Archwilio. Mae'r holl Bwyllgorau hyn wedi'u sefydlu'n ffurfiol, ac mae ganddynt gylchoedd gwaith.

O ran ei gyfrifoldebau strategol a'i gyfrifoldebau datblygu, caiff y Cyngor argymhellion a chynghor gan y Pwyllgor Cynllunio ac Adnoddau, sef un o bwyllgorau sefydlog y Cyngor, ac oddi wrth y Senedd, sef y corff sy'n gyfrifol am faterion academiaidd y Brifysgol.

Y Pwyllgor Cynllunio ac Adnoddau sy'n rheoli, yn monitro ac yn rheoleiddio cyllid, cyfrifon a buddsoddiadau'r Brifysgol o fewn y polisi cyffredinol a osodwyd gan y Cyngor. Ceir hefyd Grwp Cyllid a sefydlwyd drwy Gofnod y Cyngor, a gadeirir gan y Trysorydd ac sy'n cynnwys Cadeirydd y Cyngor, aelod lleig o'r Cyngor yn ogystal â'r Is-Ganghellor, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Rheolwr Ariannol. Bydd y Grwp Cyllid yn cyfarfod bum gwaith y flwyddyn i drafod materion cyllidol manwl a materion rheolaeth fewnol er mwyn cynghori'r Pwyllgor Cynllunio ac Adnoddau yn ôl yr angen.

Y Pwyllgor Enwebiadau sy'n ceisio ac yn cymeradwyo aelodau lleig a chyfetholedig newydd i wasanaethu ar y Cyngor ei hun, a'i is-bwyllgorau, yng ngoleuni'r sgiliau a'r cymwysterau gorau posibl sydd eu hangen. Aelodau lleig yw'r mwyafrif o aelodau'r Cyngor.

Y Pwyllgor Taliadau sy'n penderfynu ar daliadau'r mwyafrif o'r staff uwch, gan gynnwys yr Is-Ganghellor.

Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Bydd archwilwyr mewnol y Brifysgol yn mynychu pob cyfarfod, a bydd yr archwilwyr allanol yn bresennol i ystyried y Datganiadau Ariannol blynyddol a llythyr y rheolwyr neu, fel arall, pan gânt gais i fod yn bresennol. Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella systemau rheoli mewnol y Brifysgol yn ogystal ag ymatebion a chynlluniau gweithredu y rheolwyr. Bydd hefyd yn cael ac yn ystyried adroddiadau gan CCAUC a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol gan eu bod yn effeithio ar fusnes y Brifysgol, a bydd yn monitro i ba raddau y glynwyd wrth y gofynion rheoleiddiol. Nid yw'r Is-Ganghellor nac uwch-weithredwyr eraill yn aelodau o'r Pwyllgor a deuant i'w gyfarfodydd drwy wahoddiad.

Y mater o bwys a wynebwyd gan y Brifysgol yn ystod 2003/04 oedd yr uno ag CMPC, sef mater a nodwyd yn Adroddiad y Trysorydd. I weithredu ar ran Cynghorau'r Brifysgol ac CMPC wrth ddwyn yr uno yn ei flaen, crëwyd Comisiwn yr Uno. Fe ystyriodd y Comisiwn bob mater a oedd yn ymwneud â rheoli, rheoleiddio a chyfansoddiad y sefydliad unedig a phenderfynodd ar y polisiâu a'r gweithdrefnau a oedd i'w gweithredu yn y sefydliad unedig o Awst 2004 ymlaen. Cyn-aelod o Gyngor Prifysgol Caerdydd ac CMPC oedd Cadeirydd y Comisiwn, ac yr oedd yr aelodau'n cynnwys Cadeiryddion Cynghorau, Is-Ganghellorion a Llywyddion Myfyrwyr y ddau sefydliad ynghyd â dau aelod lleig nad oeddent yn aelodau lleig o'r naill Gyngor na'r llall. Penodwyd pob un o'r aelodau lleig ar Gomisiwn yr Uno ar sail cyngor gan Bwyllgorau Enwebu y naill sefydliad a'r llall.

CYFRIFOLDEBAU CYNGOR Y BRIFYSGOL

Yn unol â Siarter Corffori'r Brifysgol, y Cyngor sy'n gyfrifol am weinyddu a rheoli materion y Brifysgol, gan gynnwys sicrhau system effeithiol o reoli mewnol, ac mae'n ofynnol iddo gyflwyno Datganiadau Ariannol archwiledig ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cyfrifon cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol y Brifysgol a'i his-gwmnïau ac yn ei alluogi i sicrhau y paratoi Datganiadau Ariannol yn unol â Siarter Corffori'r Brifysgol, y Cyfarwyddyd Cyfrifon a ddarparwyd gan CCAUC, Datganiad o Arferion a Argymhellir: Cyfrifo mewn Sefydliadau Addysg Uwch a safonau cyfrifo perthnasol eraill. Yn ogystal, o fewn amodau a thelerau'r Memorandwm Ariannol y cytunwyd arno rhwng CCAUC a Chyngor y Brifysgol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, trwy ei ddeiliad swydd dynodedig, baratoi Datganiadau Ariannol am bob blwyddyn ariannol gan roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Brifysgol a'i his-gwmnïau ac o'r gwarged neu'r diffyg, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian am y flwyddyn honno.

Wrth achosi i'r Datganiadau Ariannol gael eu paratoi, mae'r Cyngor wedi sicrhau bod:

- polisïau cyfrifo addas yn cael eu dewis a'u cymhwyso'n gyson;
- y dyfarniadau a'r amcangyfrifon yn rhesymol a doeth;
- safonau cyfrifo perthnasol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a eglurwyd yn y Datganiadau Ariannol;
- Datganiadau Ariannol yn cael eu paratoi ar sail busnes byw. Mae'r Cyngor yn fodlon bod ganddo adnoddau digonol i barhau mewn busnes yn y dyfodol hyd y gellir rhagweld: ac o ganlyniad mae'r sail busnes byw yn dal i gael ei mabwysiadu wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol.

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhesymol i:

- sicrhau y caiff y cyllid a geir oddi wrth CCAUC, Cyngor Cenedlaethol ELWa a Chyrff Cyllido eraill ei ddefnyddio'n unig at y dibenion y'u darparwyd ar eu cyfer ac yn unol â'r Memorandwm Ariannol â CCAUC ac unrhyw amodau eraill y gall CCAUC neu Gorff Cyllido eu pennu o bryd i'w gilydd;
- sicrhau bod dulliau rheoli ariannol a rheolaethol priodol ar waith i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus a chronfeydd o ffynonellau eraill;
- diogelu asedau'r Brifysgol a'i his-gwmnïau ac atal a chanfod twyll;
- sicrhau y caiff adnoddau a gwariant y Brifysgol a'i his-gwmnïau eu rheoli'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae elfennau allweddol system rheolaeth ariannol fewnol y Brifysgol, a luniwyd i gyflawni'r cyfrifoldebau a amlinellwyd uchod yn cynnwys:

- diffiniadau eglur o gyfrifoldebau penaethiaid adrannau academaidd a gweinyddol a'r awdurdod a ddirprwywyd iddynt;
- proses gynllunio, wedi'i hategu â chyllidebau incwm, gwariant, cyfalaf a llif arian blynyddol manwl, a bod y Cyngor yn cymeradwyo'r gyllideb gyffredinol;
- adolygiadau rheolaidd o ganlyniadau ariannol sy'n cynnwys adroddiad ar amrywiannau a'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhagolwg canlyniadau;

CYFRIFOLDEBAU CYNGOR Y BRIFYSGOL - Parhad

- gofynion sydd wedi'u diffinio ac wedi'u ffurfioli'n eglur ar gyfer cymeradwyo a rheoli gwariant;
- Rheoliadau Ariannol cynhwysfawr sy'n rhoi manylion dulliau rheoli a gweithdrefnau ariannol, a'r rheiny wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor;
- tîm Archwilio Mewnol y mae ei raglen flynyddol wedi'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ac wedi'i chefnogi gan y Cyngor.

Er hynny, ni all unrhyw system rheolaeth ariannol fewnol ond darparu sicrwydd rhesymol, ond nid llwyr, yn erbyn camddatganiad neu golled berthnasol.

Trwy Orchymyn y Cyngor

Dr David Grant
Swyddog Cyfrifo

Dyddiad: 17eg Rhagfyr, 2004

ADRODDIAD ANNIBYNNOL YR ARCHWILWYR I GYNGOR PRIFYSGOL CAERDYDD

Yr ydym wedi archwilio'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn yn diweddu ar 31ain Gorffennaf 2004, sef y Cyfrif Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad o Lif Arian, y Datganiad o Gyfanswm Cydnabyddedig yr Enillion a'r Colledion Cyfunol a'r nodiadau cysylltiedig sydd wedi'u paratoi yn unol â chonfensiwn y gost hanesyddol (fel y'u diwygiwyd gan ailbriso rhai asedau sefydlog) a'r polisiau cyfrifo a amlinellir yn y Datganiad o Bolisiau Cyfrifo.

Cyfrifoldebau Priodol Cyngor y Brifysgol a'r Archwilwyr

Fel y disgrifiwyd yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Cyngor y Brifysgol, y Cyngor sy'n gyfrifol am baratoi'r Datganiadau Ariannol yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifo a ddarparwyd gan CCAUC, y Datganiad o Arferion a Argymhellir – Cyfrifo mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch, y gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo y Deyrnas Unedig.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r Datganiadau Ariannol yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae'r farn hon wedi'i pharatoi ar gyfer Cyngor y Brifysgol a Chyngor y Brifysgol yn unig ac nid i unrhyw ddiben arall. Nid ydym, wrth roi'r farn hon, yn derbyn nac yn ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldeb at unrhyw ddiben arall nac i unrhyw berson arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu iddi neu y gall fynd i'w (d)dwyllo neu ei ddwyllo ac eithrio lle cydsyniwyd yn benodol ac yn ysgrifenedig gennym ni ymlaen llaw.

Yr ydym yn adrodd i chi ein barn ynghylch a yw'r Datganiadau Ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a ydynt wedi'u paratoi'n briodol ac yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a ddarparwyd gan CCAUC a'r Datganiad Arferion a Argymhellir – Cyfrifo mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch. Yr ydym hefyd yn adrodd i chi ein barn ynghylch a yw'r incwm oddi wrth gyrff ariannu, grantiau ac incwm at ddibenion penodol ac o gronfeydd cyfyngedig eraill a weinyddir gan y Brifysgol wedi'u cymhwyso'n briodol ym mhob cyswllt perthnasol at y dibenion y'u cafwyd ar eu cyfer ac a yw'r incwm, yn ein barn ni, ac ym mhob cyswllt perthnasol, wedi'i gymhwyso yn unol â statudau'r Brifysgol a, lle bo'n briodol, â'r Memorandwm Ariannol â CCAUC.

Yr ydym hefyd yn adrodd i chi os nad yw'r Brifysgol, yn ein barn ni, wedi cadw cyfrifon cywir, os nad yw'r cofnodion cyfrifo yn cyd-fynd â'r Datganiadau Ariannol, neu os nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae eu hangen arnom i wneud ein harchwiliad.

Byddwn yn darllen y wybodaeth arall sydd yn y Datganiadau Ariannol ac yn ystyried y goblygiadau ar gyfer ein hadroddiad os down i wybod am unrhyw gamddatganiad ymddangosiadol yn y Datganiadau Ariannol neu anghysonder o bwys â'r Datganiadau Ariannol. Nid yw'r wybodaeth arall ond yn cynnwys Adroddiad y Trysorydd, y Datganiad o Lywodraethu Corfforaethol a'r Datganiad o Gyfrifoldebau Cyngor y Brifysgol.

Sail y Farn Archwilio

Fe wnaethom ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio y Deyrnas Unedig fel y'u cyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac â'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan CCAUC. Mae archwiliad yn cynnwys astudio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r dadleniadau yn y Datganiadau Ariannol. Mae ef hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a dyfarniadau sylweddol a wnaed gan Gyngor y Brifysgol wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol, ac a yw'r polisiau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Brifysgol ac yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u dadlennu'n ddigonol.

Cynlluniwyd a chyflawnwyd ein harchwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y credem eu bod yn angenrheidiol er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i ni i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiadau Ariannol yn rhydd rhag camddatganiad perthnasol, p'un a achoswyd hynny trwy dwyll neu afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall. Wrth ffurfio'n barn, gwnaethom hefyd werthuso digonolrwydd cyffredinol cyflwyniad y wybodaeth yn y Datganiadau Ariannol.

Barn

Yn ein barn ni:

- i. mae'r Datganiadau Ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Brifysgol ar 31ain Gorffennaf, 2004 ac o'i gwaged incwm dros wariant, ei henillion a'i cholledion cydnabyddedig a'i llifoedd arian am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny ac maent wedi'u paratoi'n briodol ac yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifo a gyhoeddwyd gan CCAUC a'r Datganiad o Arferion a Argymhellir – Cyfrifo mewn Sefydliadau Bellach ac Uwch;

**ADRODDIAD ANNIBYNNOL YR ARCHWILWYR I GYNGOR PRIFYSGOL CAERDYDD -
Parhad**

- ii. ymhob cyswllt perthnasol, mae'r incwm o CCAUC, grantiau ac incwm at ddibenion penodol ac o gronfeydd cyfyngedig eraill, o ba ffynhonnell bynnag, a weinyddir gan y Brifysgol wedi'u cymhwyso'n unig at y dibenion y'u cafwyd ar eu cyfer;
- iii. ymhob cyswllt perthnasol, mae'r incwm wedi'i gymhwyso yn unol â statudau'r Brifysgol a, lle bo'n briodol, â'r Memorandwm Ariannol â CCAUC.

PricewaterhouseCoopers LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig
Caerdydd

Dyddiad: 17eg Rhagfyr, 2004

Nodiadau

- (a) Cyngor y Brifysgol sy'n gyfrifol am gynnal gwefan Prifysgol Caerdydd ac am ei chywirdeb; gan nad yw'r gwaith a gyflawnir gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r Datganiadau Ariannol ers iddynt gael eu rhoi ar y wefan yn wreiddiol.
- (b) Mae'n bosibl bod y ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu Datganiadau Ariannol yn y Deyrnas Unedig yn wahanol i'r ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

DATGANIAD O'R PRIF BOLISI'AU CYFRIFO**Sail y Paratoi**

Mae'r Datganiadau Ariannol wedi'u paratoi yn unol â Safonau Cyfrifo sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig ac, yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir: Cyfrifo mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch ("SORP"). Os yw'n berthnasol mae'r Datganiadau Ariannol yn dilyn cyfarwyddiadau Cyfrifo CCAUC.

Sail y Cyfrifo

Mae'r Datganiadau Ariannol hyn wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i diwygiwyd trwy ailbrisiu'r Buddsoddiadau Ased Gwaddol ac asedau sefydlog penodol.

Sail y Cyfuno

Mae'r Datganiadau Ariannol cyfunol yn cyfuno Datganiadau Ariannol y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau am y flwyddyn ariannol hyd at 31ain Gorffennaf ond nid ydynt yn cynnwys mentrau Undeb y Brifysgol na Cardiff Partnership Fund Cyf am nad oes gan y Cyngor reolaeth dros eu gweithgareddau ariannol a gweithredol. Caiff polisiâu cyfrifo unffurf eu mabwysiadu ledled y grwp.

Cydnabod Incwm

Mae incwm o Waddolion a Rhoddion Penodol, Grantiau a Chontractau Ymchwil a Gwasanaethau Eraill a Ddarparwyd wedi'u cynnwys i raddau'r gwariant uniongyrchol a fu yn ystod y flwyddyn, ynghyd ag unrhyw gyfraniadau perthnasol tuag at gostau gorbenion. Credyd yr holl incwm o adneuo tymor byr a Buddsoddiadau Ased Gwaddol Cyffredinol i'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar sail dderbyniadwy. Caiff Grantiau Penodol sydd heb eu gwario eu cario ymlaen fel Incwm Gohiriedig.

Cydnabyddir Grantiau rheolaidd oddi wrth y Cyngorau Cyllido yn y cyfnod y'u ceir hwy.

Darpariaeth ar gyfer Dyledion Amheus

Gwneir darpariaeth benodol ar gyfer dyledion unigol lle tybir bod amheuaeth ynglyn â'u hadennill. Darperir ar gyfer dyledion ffioedd dysgu a ffioedd llety ar sail profiad hanesyddol. Diddymir y dyledion hyn yn unig os bydd myfyrwyr yn methu â dychwelyd. Darperir ar gyfer yr holl ddyledion eraill yn llawn os ydynt dros 12 mis oed.

Cynlluniau Pensiwn

Cyfrifwyd am gostau pensiwn yn unol ag SSAP24, Cyfrifo am Gostau Pensiwn.

Y tri phrif gynllun pensiwn i staff y Brifysgol yw Cynllun Blwydd-dâl y Prifysgolion (USS), Cronfa Bensiwn Prifysgol Cymru, Prifysgol Caerdydd (CUPF) a Chynllun Llywodraeth Leol (LGS). Cynlluniau budd-dâl diffiniedig yw'r rhain a chânt eu cyllido'n allanol heb iddynt fod yn rhan o gontract Cynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar sail Enillion. Prisir y Cronfeydd bob tair blynedd gan actiwariaid sy'n defnyddio naill ai'r dull cronni neu'r dull oed-a-gyrhaeddwyd, a'r ymddiriedolwyr, ar sail y cyngor a gânt gan yr actiwariaid, sy'n penderfynu ar gyfraddau'r cyfraniad sy'n daladwy. Asesir y costau pensiwn ar brisiad actiwaraidd diweddaraf y Cynlluniau a chyfrifir amdanynt ar sail cost darparu pensiynau dros y cyfnod y mae'r Brifysgol yn elwa o wasanaethau'r gweithwyr cyflog.

Caiff amrywiadau o'r gost reolaidd eu gwasgaru dros weddill cyfartaledd oes weithio ddisgwyliedig Aelodau'r Cynllun ar ôl ystyried arian a gaiff ei godi yn y dyfodol. Mae nifer fach o staff yn parhau mewn cynlluniau pensiwn eraill.

Mae mesurau trosiannol buddion ymddeol FRS17 wedi dal i gael eu cymhwyso am y flwyddyn yn diweddu 31ain Gorffennaf 2004.

DATGANIAD O'R PRIF BOLISI'AU CYFRIFO - Parhad**Arian Tramor**

Cofnodir trafodion a wneir mewn arian tramor yn ôl y gyfradd gyfnewid sydd ar waith ar ddyddiadau'r trafodion. Trosir asedau a rhwymedigaethau ariannol mewn arian tramor i sterling yn ôl y cyfraddau diwedd blwyddyn a chaiff y gwahaniaethau cyfnewid sy'n deillio o hynny eu cynnwys wrth benderfynu ar y diffyg neu'r gwarged am y flwyddyn.

Prydlesi

Mae prydlesi ariannol, sef prydlesi sy'n rhoi'r un hawliau i bob pwrpas â pherchnogaeth, sy'n gysylltiedig ag eitemau sylweddol o ran peiriannau, offer a cherbydau wedi'u cyfalafu a'u dibrisio yn unol â pholisi dibrisio'r Brifysgol, yn amodol ar uchafswm cyfnod tymor y brydles. Mae elfen llog cyfalaf y taliadau prydles yn y dyfodol wedi'u cynnwys mewn credydwy'r eraill. Mae elfen llog y taliadau prydles yn gyfran gyson o'r balans cyfalaf sy'n ddyledus ac a delir i'r cyfrif elw a cholled dros gyfnod y brydles.

Caiff incwm a chostau rhent dan brydlesi gweithredol eu credydu a'u talu i mewn i incwm a gwariant yn ôl eu trefn mewn cyfansymiau blynyddol cyfwerth dros gyfnodau'r prydlesi.

Tir ac Adeiladau

Mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â darpariaethau Asedau Sefydlog Diriaethol FRS15 ac wedi cadw Tir ac Adeiladau yn ôl eu gwerth llyfr net (yn amodol ar y gofyniad i'w hadolygu'n flynyddol am amhariad). Cynhaliwyd y prisiad diwethaf ym mis Gorffennaf 1998 gan Gerald Eve, Tirfesurwyr Siartredig.

Gynt, sail prisiad eiddo rhydd-ddaliadol anarbenigol ac eiddo prydlesol anarbenigol oedd y gwerth ar y farchnad agored ar gyfer y defnydd cyfredol; ar gyfer eiddo rhydd-ddaliadol arbenigol ac eiddo prydlesol arbenigol, yr hyn oedd yn sail i'r prisio oedd cost ailosod ar ôl dibrisiad ac mae'r gwerth hwn wedi'i bennu bellach. Delir tir yn rhydd-ddaliadol ac ni chaiff ei ddibrisio gan yr ystyrir fod iddo oes ddefnyddiol amhenodol.

Dibrisir adeiladau dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig o 50 mlynedd a thir prydlesol dros oes y brydles hyd at uchafswm o 50 mlynedd. Caiff adnewyddiadau sylweddol sydd â chost cyfalaf o fwy na M£¼ ac sy'n cynyddu gwerth yr adeiladu eu cyfalafu a'u dibrisio dros 15 mlynedd.

Os caiff adeiladau eu caffael gyda chymorth grantiau penodol, cânt eu hystyried yn gyfalaf a'u dibrisio fel uchod. Caiff y grantiau cysylltiedig eu trin fel grantiau cyfalaf gohiriedig a'u rhyddhau i incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr adeiladau.

Mae'r Brifysgol yn glynu wrth Femorandwm Ariannol CCAUC sy'n ei gwneud yn ofynnol cael cymeradwyaeth CCAUC cyn cychwyn trafodion sy'n effeithio ar eiddo a adeiladwyd neu a ddatblygwyd gyda grantiau a dalwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar sail cyngor y Cynghorau Cyllido.

Offer

Caiff gwerth offer sy'n costio llai na £10,000 yr eitem neu grwp o eitemau cysylltiedig ei ddileu ym mlwyddyn eu caffael. Ystyrir yr holl offer arall fel cyfalaf.

Caiff offer a gyfalafwyd eu rhestru yn ôl eu cost a cânt eu dibrisio ar sail llinell syth dros y tymor prydles byrraf a'r oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

Prif gyfrifiadur ac offer ffôn	- 7 mlynedd
Cerbydau modur ac offer cyffredinol arall	- 4 blynedd

Os ceir offer gyda chymorth grantiau penodol, cânt eu cyfalafu a'u dibrisio fel y dangosir uchod. Caiff y grantiau cysylltiedig eu trin fel grantiau cyfalaf gohiriedig a'u rhyddhau i incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr offer.

DATGANIAD O'R PRIF BOLISI'AU CYFRIFO - Parhad**Grantiau a chyfraniadau cyfalaf**

Rhoddir cyfrif am grantiau a chyfraniadau cyfalaf a geir gan y Brifysgol i gyllido gwaith adeiladu neu brynu asedau cyfalaf fel grantiau cyfalaf gohiriedig a'u rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau cysylltiedig.

Buddsoddiadau

Cynhwysir Buddsoddiadau Ased Gwaddol yn y Fantolen yn ôl eu gwerth ar y farchnad. Cynhwysir Buddsoddiadau Ased Cyfredol yn ôl y gost isaf a gwerth ar y farchnad.

Stociau

Stociau cemegol canolog a nwyddau traul masnachol yr Uned Arlwyo a Gwaith yw'r stociau. Prisir hwy yn ôl y gost isaf neu'r gwerth pris gwerthadwy net.

Cynnal a Chadw Eiddo

Mae gan y Brifysgol gynllun cynnal a chadw treigl a adolygir bob blwyddyn. Daw'r costau cynnal a chadw cywirol rheolaidd o'r cyfrif incwm a gwariant wrth iddynt godi.

Statws Treth

Mae'r Brifysgol yn elusen sydd wedi'i heithrio o fewn ystyr Atodlen 2 Deddf Elusennau 1993 ac fel y cyfryw yn elusen o fewn ystyr Adran 506(1) Deddf Trethi 1988. Felly, mae'r Brifysgol wedi'i heithrio, o bosibl, rhag talu treth mewn cysylltiad ag incwm neu enillion cyfalaf a geir o fewn y categorïau a ddaw o dan Adran 505 Deddf Trethi 1988 neu Adran 256 Deddf Trethu Enillion Trethadwy 1992 i'r graddau y caiff y cyfryw incwm neu enillion eu cymhwyso'n gyfan gwbl ar ddibenion elusennol. Nid yw'r Brifysgol wedi'i heithrio rhag Treth ar Werth yn yr un modd.

Treth Ohiriedig

Cydnabyddir treth ohiriedig mewn cysylltiad â'r holl wahaniaethau amseru sydd wedi cychwyn ond heb eu gwrth-droi ar ddyddiad y fantolen lle mae'r trafodion neu'r digwyddiadau'n arwain at rwymedigaeth i dalu rhagor o dreth yn y dyfodol, neu hawl i dalu llai o dreth yn y dyfodol. Mesurir treth ohiriedig yn ôl cyfartaledd y cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn gymwys yn y cyfnod y disgwylir i'r gwahaniaethau amseru gael eu gwrth-droi ynddo, yn seiliedig ar gyfraddau treth a chyfraith a weithredwyd neu a weithredwyd i bob pwrpas ar ddyddiad y fantolen. Ni chydabyddir asedau treth gohiriedig ond i'r graddau yr ystyrir ei bod hi'n fwy tebygol na pheidio y bydd gwargedau trethadwy y gellir didynnu costau gwrth-droi'r gwahaniaethau amseru sylfaenol ohonynt yn y dyfodol. Ni ddisgowntir balansau treth ohiriedig.

Arian ac Adnoddau Hylifol

Mae adneuron arian tymor-byr gyda banciau, cymdeithasau adeiladu a gwarantau llywodraethol cydnabyddedig y gellir codi arian ohonynt ar alw neu heb rybudd a heb gosb berthnasol wedi'u cynnwys yn y balansau arian yn y fantolen gyfunol a'r datganiadau llyf arian cyfunol.

Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan fo gan y sefydliad rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol ac mae'n debygol y bydd yn ofynnol trosglwyddo budd economaidd i setlo'r rhwymedigaeth ac y gellir amcangyfrif cyfanswm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

CYFRIF INCWM A GWARIANT CYFUNOL

Am y Flwyddyn yn Diwedd 31ain Gorffennaf, 2004

	Nodyn	<u>2003/04</u> £000	<u>2002/03</u> £000 Ailddatganwyd
INCWM			
Grantiau'r Cyngor Cyllido	1	80,389	76,833
Ffioedd Hyfforddi a Grantiau Cefnogi	2	43,671	40,445
Grantiau a Chontractau Ymchwil	3	44,219	42,855
Incwm Gweithredu Arall	4	26,311	23,846
Incwm Gwaddol a Llog Derbyniadwy	5	<u>2,936</u>	<u>2,905</u>
Cyfanswm yr Incwm		<u>197,526</u>	<u>186,884</u>
GWARIANT			
Costau Staff	6	110,265	99,989
Treuliau Gweithredu Eraill	7	70,927	66,372
Dibrisiad	11	8,675	8,397
Llog Taladwy a Chodiadau Tebyg	8	<u>1,854</u>	<u>2,033</u>
Cyfanswm y Gwariant	9	<u>191,721</u>	<u>176,791</u>
Gwarged ar Weithrediadau Parhaus ar ôl Dibrisiad Asedion ar Brisiad, Gwaredu Asedau a Threth		5,805	10,093
Trosglwyddwyd o incwm cronnus mewn gwaddolion penodol		<u>91</u>	<u>109</u>
Gwarged am y flwyddyn a gadwyd yn y cronfeydd cyffredinol wrth gefn	23	<u>5,896</u>	<u>10,202</u>

DATGANIAD O GOST HANESYDDOL Y GWARGEDION A'R DIFFYGIION

Am y Flwyddyn yn Diwedd 31ain Gorffennaf, 2004

	Nodyn	<u>2003/04</u> £000	<u>2002/03</u> £000
Gwarged ar Weithrediadau Parhaus Cyn Treth		5,805	10,093
Y Gwahaniaeth Rhwng Codiad Dibrisiad ar Sail Cost Hanesyddol a'r Codiad Dibrisiad Gwirioneddol am y Flwyddyn Wedi'i Gyfrifo ar y Swm a Ailbrisiwyd	22	<u>3,061</u>	<u>3,061</u>
Gwarged Cost Hanesyddol Cyn Treth		<u>8,866</u>	<u>13,154</u>
Gwarged Cost Hanesyddol Ar Ôl Treth		<u>8,866</u>	<u>13,154</u>

**DATGANIAD O GYFANSWM CYDNABYDDEDIG YR ENILLION A'R COLLEDION
CYFUNOL**

Am y Flwyddyn yn Diwedd 31ain Gorffennaf, 2004

	<u>Nodyn</u>	<u>2003/04</u> £000	<u>2002/03</u> £000 Ailddatganwyd
Gwarged ar Weithrediadau Parhaus Ar Ôl Dibrisiad Asedau ar Brisiad, Gwerthu Asedau a Threth		5,805	10,093
Gwaddolion Newydd	21	140	4
Arbrisiad/(Dibrisiad) Buddsoddiadau Ased Gwaddol	21	<u>190</u>	<u>17</u>
Cyfanswm Enillion Cydnabyddedig y Flwyddyn		<u>6,135</u>	<u>10,114</u>
Cysoniad:			
Cronfeydd Wrth Gefn a Gwaddolion Wrth Agor		213,079	202,965
Cyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig am y Flwyddyn		<u>6,135</u>	<u>10,114</u>
Cronfeydd Wrth Gefn a Gwaddolion Wrth Gloi		<u>219,214</u>	<u>213,079</u>

MANTOLENNI AR 31AIN GORFFENNAF, 2004

	Nodyn	<u>Cyfunol</u>		<u>Prifysgol</u>	
		<u>2004</u> £000	<u>2003</u> £000	<u>2004</u> £000	<u>2003</u> £000
ASEDAU SEFYDLOG					
Asedau Diriaethol	11	238,784	240,911	238,784	240,911
Buddsoddiadau	12	<u>46</u>	<u>76</u>	<u>216</u>	<u>216</u>
		<u>238,830</u>	<u>240,987</u>	<u>239,000</u>	<u>241,127</u>
BUDDSODDIADAU GWADDOL	13	<u>7,870</u>	<u>7,632</u>	<u>7,870</u>	<u>7,632</u>
ASEDAU CYFREDOL					
Stociau	14	188	164	188	164
Dyledwyr	15	16,987	15,116	17,577	15,862
Adneuoŷ Tymor-Byr		78,613	64,854	78,483	64,684
Arian yn y Banc ac Mewn Llaw		<u>350</u>	<u>1,263</u>	<u>350</u>	<u>1,263</u>
		96,138	81,397	96,598	81,973
CREDYDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN	16	<u>(22,713)</u>	<u>(23,285)</u>	<u>(22,980)</u>	<u>(23,638)</u>
ASEDAU CYFREDOL NET		<u>73,425</u>	<u>58,112</u>	<u>73,618</u>	<u>58,335</u>
CYFANSWM YR ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL		320,125	306,731	320,488	307,094
CREDYDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS AR ÔL MWY NA BLWYDDYN	17	<u>(22,298)</u>	<u>(23,698)</u>	<u>(22,298)</u>	<u>(23,698)</u>
DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU A CHODIADAU	18	<u>(2,539)</u>	<u>(2,902)</u>	<u>(2,539)</u>	<u>(2,902)</u>
INCWM GOHIRIEDIG ARALL	19	<u>(11,084)</u>	<u>(7,645)</u>	<u>(11,084)</u>	<u>(7,645)</u>
CYFANSWM YR ASEDAU NET		<u>284,204</u>	<u>272,486</u>	<u>284,567</u>	<u>272,849</u>

MANTOLENNI AR 31AIN GORFFENNAF, 2004 - Parhad

		<u>Cyfunol</u>		<u>Prifysgol</u>	
	Nodyn	<u>2004</u> £000	<u>2003</u> £000	<u>2004</u> £000	<u>2003</u> £000
GRANTIAU CYFALAF GOHIRIEDIG	20	64,990	59,407	64,990	59,407
GWADDOLION					
Penodol	21	7,427	7,201	7,426	7,201
Apêl	21	37	36	38	36
Cyffredinol	21	<u>406</u>	<u>395</u>	<u>406</u>	<u>395</u>
		<u>7,870</u>	<u>7,632</u>	<u>7,870</u>	<u>7,632</u>
CRONFEYDD WRTH GEFN					
Cronfa Wrth Gefn Ailbrisiad	22	100,879	103,939	100,879	103,939
Cronfeydd Incwm a Gwariant wrth gefn	23	<u>110,465</u>	<u>101,508</u>	<u>110,828</u>	<u>101,871</u>
		<u>211,344</u>	<u>205,447</u>	<u>211,707</u>	<u>205,810</u>
CYFANSWM Y CRONFEYDD		<u>284,204</u>	<u>272,486</u>	<u>284,567</u>	<u>272,849</u>

Cymeradwywyd y Datganiadau Ariannol ar dudalennau 9 i 40 gan y Cyngor ar 17eg Rhagfyr, 2004, ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

Dr DAVID GRANT, Is-Ganghellor

R D GAGG, Trysorydd

D M DAVIES, Cyfarwyddwr Cyllid

Prifysgol Caerdydd

DATGANIAD O'R LLIF ARIAN CYFUNOL

Am y Flwyddyn yn Diwedd 31ain Gorffennaf, 2004

	<u>Nodyn</u>	<u>2003/04</u> £000	<u>2002/03</u> £000
LLIF ARIAN O WEITHREDIADAU GWEITHREDOL			
	27	12,903	15,584
Adenillion ar Fuddsoddiadau a Gwasanaethu Cyllid	28	116	1,548
Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiad Ariannol	29	1,192	(14,366)
Rheoli Adnoddau Hylifol	30	(13,759)	(1,441)
Cyllido	31	(1,365)	(1,337)
Gostyngiad mewn Arian yn y Cyfnod	32	<u>(913)</u>	<u>(12)</u>
 CYSONI'R LLIF ARIAN NET Â'R SYMUD MEWN CRONFEYDD NET			
Gostyngiad mewn Arian yn y Cyfnod	32	(913)	(12)
All-lif Arian o Adnoddau Hylifol	32	13,759	1,441
All-lif Arian o'r Gostyngiad yn y Ddyled	32	<u>1,365</u>	<u>1,337</u>
Newid yn y Cronfeydd Net o Ganlyniad i Lifoedd Arian a Symud mewn Cronfeydd Net	32	14,211	2,766
Cronfeydd Net ar 1af Awst		<u>41,054</u>	<u>38,288</u>
Cronfeydd Net ar 31ain Gorffennaf		<u>55,265</u>	<u>41,054</u>

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

1. GRANTIAU'R CYNGOR CYLLIDO	<u>2003/04</u> £000	<u>2002/03</u> £000
Grant Rheolaidd	72,527	70,901
Grantiau Penodol		
Isadeiledd Academaidd	2,574	1,219
Cymorth Dysgu ac Addysgu	1,260	1,316
Y Gronfa Buddsoddi mewn Ymchwil Wyddonol	269	342
Datblygiad Economaidd Addysg Uwch	739	920
Cronfeydd Atodol	298	-
Eraill	618	509
Grantiau Cyfalaf Gohiriedig a Ryddhawyd yn ystod y Flwyddyn		
Adeiladau (Nodyn 20)	1,771	1,302
Offer (Nodyn 20)	<u>333</u>	<u>324</u>
	<u>80,389</u>	<u>76,833</u>
2. FFIOEDD HYFFORDDI A GRANTIAU CEFNOGI	<u>2003/04</u> £000	<u>2002/03</u> £000
Y ffioedd cartref a godwyd ar fyfyrwyr amser-llawn o'r DU	18,126	16,985
Y ffioedd cartref a godwyd ar fyfyrwyr amser-llawn o'r Undeb Ewropeaidd (UE)	1,405	1,666
Y ffioedd tramor a godwyd ar fyfyrwyr amser-llawn o'r tu allan i'r UE	17,115	15,793
Ffioedd rhan-amser	1,687	1,464
Grantiau Cefnogi Hyfforddiant Ymchwil	1,087	795
Ffioedd Nad Ydynt yn Dwyn Credyd	<u>4,251</u>	<u>3,742</u>
	<u>43,671</u>	<u>40,445</u>
3. GRANTIAU A CHONTRACTAU YMCHWIL	<u>2003/04</u> £000	<u>2002/03</u> £000
Y Cyngorau Ymchwil	14,015	11,775
Elusennau sydd â'u Canolfan yn y DU	7,591	6,707
Llywodraeth y DU, Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Iechyd	10,364	9,066
Cwmnïau Cyfyngedig a Chorfforaethau Cyhoeddus yn y DU	4,749	4,682
Y Comisiwn Ewropeaidd ac Eraill	2,737	2,334
Tramor	953	994
Cyllid Isadeiledd Cyd-Ymchwil ac Ymchwil Strategol	1,389	4,720
Eraill	<u>2,421</u>	<u>2,577</u>
	<u>44,219</u>	<u>42,855</u>

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL - Parhad**4. INCWM GWEITHREDOL ARALL**

	<u>2003/04</u> £000	<u>2002/03</u> £000
Preswylfeydd, Arlwyo a Chynadleddau	14,358	14,290
Gwasanaethau Eraill a Ddarparwyd	6,992	6,420
Rhyddhawyd o'r Grantiau Cyfalaf Gohiriedig (Nodyn 20)	55	55
Rhent Derbyniadwy	78	21
Eithriadau TAW y Gellir eu Hadennill	378	414
Dyfarniadau Ôl-raddedig	13	11
Rhoddion a Chymorthdaliadau	166	93
Incwm Arall	<u>4,271</u>	<u>2,542</u>
	<u>26,311</u>	<u>23,846</u>

5. INCWM GWADDOL A LLOG DERBYNIADWY

	<u>2003/04</u> £000	<u>2002/03</u> £000
		Ailddatganwyd
Incwm o Waddolion Penodol (Nodyn 21)	298	186
Trosglwyddwyd o Waddolion Apêl (Nodyn 21)	-	4
Incwm o Fuddsoddiad Ased Gwaddol Cyffredinol (Nodyn 21)	9	9
Llog Derbyniadwy	<u>2,629</u>	<u>2,706</u>
	<u>2,936</u>	<u>2,905</u>

Mae'r incwm o K£109 a drosglwyddwyd o Waddolion Penodol yn 2002/03 ac a gynhwysid cynt yn yr Incwm a'r Llog Derbyniadwy wedi'i ail-ddadansoddi yn llinell ar wahân yn y Cyfrif o Incwm a Gwariant Cyfunol, ac mae'r ffigur cymharol wedi'i ailddatgan yn unol â hynny.

6. STAFF

	<u>2003/04</u> £000	<u>2002/03</u> £000
Costau Staff:		
Cyflogau Wythnosol a Misol	90,825	82,904
Costau Nawdd Cymdeithasol	7,396	6,281
Costau Pensiwn Eraill (Nodyn 33)	<u>12,044</u>	<u>10,804</u>
	<u>110,265</u>	<u>99,989</u>
Taliadau i'r Is-Ganghellor – Cyflog	146	141
Cyfraniad Pensiwn	<u>14</u>	<u>14</u>
	<u>160</u>	<u>155</u>

Nid oedd unrhyw fuddion mewn da yn daladwy i'r Is-Ganghellor.

Nifer y Staff, ar gyfartaledd, fesul Prif Gategori:

	<u>Rhif</u>	<u>Rhif</u>
Academaidd ac Academaidd-Gysylltiedig	2,024	1,937
Technegol	255	254
